

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: 14 Mawrth 2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 20 MAWRTH 2014** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

## AGENDA

### RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2014 (copi ynghlwm).

**09:30 – 09:35**

**5 DARPARIAETH GWASANAETH YN DILYN CAU ASIANTAETHAU CYMUNEDOL** (Tudalennau 13 - 18)

Manylu ar y gwasanaeth amgen a fydd ar gael i drigolion yn dilyn cau asiantaethau cymunedol yn y sir a diwedd cyllid Taith i Waith.

**09:35 – 10:20**

**6 TROSOLWG O YMWELIADAU DARPARWYR MEWNOL 2013/14** (Tudalennau 19 - 22)

Ystyried adborth ar yr ymweliadau mewnol â darparwyr gofal cymdeithasol sy'n tynnu sylw at ansawdd, profiad y cwsmer a chamau gweithredu arfer da/gwelliannau ar gyfer y darparwyr.

**10:20 – 10:50**

**EGWYL GYSUR**

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12,13,14, Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**7 YSTÂD AMAETHYDDOL** (Tudalennau 23 - 44)

Amlinellu'r cynnydd a wnaed gyda rhesymoli ystâd amaethyddol y Sir, y buddsoddiad hyd yma yn yr ystâd, nifer yr unedau sydd ar osod a hyd prydlesi, nifer yr unedau a ildwyd, nifer yr unedau a werthwyd a'r cyfalaf a gafwyd yn sgil gwerthu, a strwythur staffio'r adran Ystâd Amaethyddol.

**11:00 – 11:45**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**8 RHAGLEN GWAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 45 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor a diweddarau'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11:45 – 12:05**

## **9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12:30**

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

David Simmons (Cadeirydd)

Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)

William Cowie  
Meirick Davies  
Richard Davies  
Colin Hughes

Geraint Lloyd-Williams  
Peter Owen  
Dewi Owens  
Gareth Sandilands

#### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthin, Dydd Iau, 20 Chwefror 2014 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac David Simmons (Cadeirydd).

Presenoldeb Aelodau Arweiniol ar gais y Pwyllgor:- y Cyngor. Hugh Irving ac Eryl Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:-** Mrs G. Greenland, Ms D. Houghton a Mr G. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) William Cowie, Nicola Lewis a/ac Dr. D. Marjoram

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

*Nid oedd unrhyw Aelod wedi datgan unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.*

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Ionawr 2014.

Materion yn codi: -

9. Rhaglen Gwaith Archwilio - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorwyr A. Roberts, eglurodd y Cydlynnydd Archwilio y byddai gwaith a wnaed gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar Sefydliadau Hyd Braich yn sail i adroddiad cynhwysfawr i'r

Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, gydag adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

**PENDERFYNWYD** – *y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## **5 MODERNEIDDIO ADDYSG – ADRODDIAD CYNNYDD**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (HCES), a oedd yn manylu canfyddiadau'r Adolygiad Gateway o Raglen Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych ac yn rhoi diweddariad cyffredinol ar y cynnydd presennol o brosiectau unigol, wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd yr HCES yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion y cynnydd yn erbyn Blaenoriaeth allweddol y Cyngor. Fel rhan o ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, roedd y ffrwd waith ar gyfer y flaenoriaeth o wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion wedi cael ei datblygu i fod yn rhaglen glir o waith. Roedd y prosiectau cyfredol, a oedd yn rhan o'r ffrwd waith, yn cynnwys y prosiectau cyfalaf mawr a'r cynigion trefniadaeth ysgolion. Roedd trafodaethau gyda LIC wedi nodi'r manteision o gynnal Adolygiad Gateway ar y ffrwd waith i ddarparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch y mesurau a oedd ar waith i reoli'r rhaglen. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.LI. Davies, eglurodd y HCES y byddai fersiwn Gymraeg o'r ddogfen Adolygiad Gateway PGC yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau, os byddai fersiwn Gymraeg ar gael.

Roedd Adolygiad Gateway ffurfiol wedi'i wneud o Raglen Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych ym mis Medi. Roedd tîm Adolygiad Gateway annibynnol wedi cyfweld â phersonél sy'n ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Roedd y system adolygu wedi darparu pum categori o farn yn amrywio o Wyrdd, Ambr/Gwyrdd, Ambr, Ambr/Coch a Choch. Mae'r asesiad hyder darparu cyffredinol o'r adolygiad wedi bod yn Ambr/Gwyrdd – Roedd darparu'n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol, fodd bynnag, byddai angen rhoi sylw cyson i sicrhau nad oedd risgiau'n troi'n faterion o bwys a oedd yn bygwth darpariaeth.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y canfyddiadau a'r argymhellion o'r adolygiad, a gafodd eu hymgorffori yn Atodiad 1.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r ansicrwydd o gyllid yn y dyfodol â'r Rhaglen Ysgolion Sir Ddinbych yn cael ei heffeithio gan benderfyniadau ar swm, amseriad a natur cefnogaeth ariannol LIC. Roedd Sir Ddinbych wedi ystyried sut y gallai liniaru'r effaith o lai o gyllid gyda'i raglen buddsoddi mewn ysgolion.

Eglurwyd er bod amcanion polisi ar gyfer y Rhaglen wedi'u pennu, byddai datganiad gweledigaeth cyffredinol yn nodi sut byddai'r dyfodol yn edrych yn ddefnyddiol. Roedd yr adolygiadau ardal wedi darparu sail gadarn i'r Rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd mynegiant clir eto o sut y byddai'r canfyddiadau o'r ardaloedd unigol, a'r weledigaeth a ddeilliodd o'r gwaith hwnnw, yn cael eu hadlewyrchu ar lefel Rhaglen. Er bod manteision pendant a manteision cyffredinol wedi'u nodi ar lefel prosiect, roedd gwaith i ddod â'r rhain ynghyd ar lefel Rhaglen

yn dal i gael ei ddatblygu. Roedd yr angen i gasglu dangosyddion o gyfraniad y Rhaglen at ganlyniadau addysgol yn y Sir wedi'u nodi.

Roedd y pedwar prif argymhelliad a wnaed gan yr adolygiad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. At ei gilydd, roedd canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod y Rhaglen mewn sefyllfa gref i gyflawni canlyniadau a fwriadwyd, ac roedd cofrestr risg lefel Rhaglen wedi'i diweddarau wedi cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg (MEPB). Byddai Rheolwr y Rhaglen yn gyfrifol am arwain ar y darnau o waith a oedd yn weddill, a byddai cynnydd yn eu herbyn yn cael eu hadrodd i'r MEPB ym Mawrth. Roedd manylion am Aelodaeth yr MEPB yn cael eu darparu gan yr HCES a chytunodd i fynd ar drywydd yr awgrym y gallai Aelodau Archwilio fod yn bresennol, ac o bosibl, fod yn aelodau o'r Bwrdd.

Mae'r cynnydd cyfredol yn erbyn y Rhaglen wedi cael ei asesu drwy brosesau her mewnol fel Adroddiadau Perfformiad Chwarterol a'r MEPB. Rhoddodd y HCES grynodedb o Atodiad 2, Diweddariad Moderneiddio'r Rhaglen Addysg, a oedd yn amlinellu cwmpas a chynnydd y prosiectau sy'n cael eu cynnal ledled y Sir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. W. Williams at y diffyg dealltwriaeth o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a chyfeiriwyd yn arbennig at bresenoldeb gwael gan aelodau etholedig mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a sesiynau yn ymwneud â materion addysg. Eglurodd y HCES y byddai barn yr Aelodau Etholedig a Chyfetholedig yn cael ei chroesawu a'i gwerthfawrogi. Pwysleisiodd yr angen i barhau i gyfathrebu a thynnu sylw at nodau ac amcanion y Rhaglen Moderneiddio Addysg i fudd-ddeiliaid a dinasyddion, gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth o'r rhaglen a'i manteision i'r holl breswylwyr. Mae'r Rhaglen yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a byddai ei darparu'n llwyddiannus yn cyfrannu tuag at adfywio'r Sir.

Amlygwyd pwysigrwydd lefel y buddsoddiad cyfalaf gan Sir Ddinbych gan y Cynghorydd E.W. Williams, mewn perthynas â diogelu cyllid grant ar gyfer prosiectau'r dyfodol. Cyfeiriodd at Gynllun Cyfalaf yr Awdurdod a phwysigrwydd y Cynllun Corfforaethol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd, eglurwyd y byddai'n bwysig parhau i weithio gydag ysgolion a budd-ddeiliaid i ad-drefnu adeiladau ysgol er mwyn galluogi grwpiau cymunedol i'w defnyddio y tu allan i amser ysgol, ac i hyrwyddo'r weledigaeth o gael ysgolion modern, sy'n sefydliadau addysgol, yn ogystal ag yn asedau cymunedol at ddefnydd preswylwyr, heb gael effaith andwyol ar fwynderau cymunedol lleol eraill. Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd bod pob ymdrech bosibl yn cael ei wneud i sicrhau bod adeiladau ysgolion yn ddiogel rhag fandaliaeth hefyd, gwnaed hyn trwy weithio mewn partneriaeth agos â sefydliadau eraill, fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd R. J. Davies, cytunwyd i ymchwilio i'r 'piler' honedig yng nghanol neuadd Addysg Gorfforol yn Ysgol Plas Brondyffryn, a hefyd y trefniadau ar waith i alluogi mynediad cyfartal i ddisgyblion yn yr ysgol at y cyfleusterau chwaraeon yn safle cyfagos Ysgol Uwchradd Dinbych.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, llongyfarchodd y Pwyllgor y staff sy'n ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg am eu gwaith diwyd, ac fe:-

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y sylwadau uchod, i nodi canfyddiadau'r Adolygiad Gateway ar y cynnydd cyffredinol yn erbyn y flaenoriaeth allweddol hon gan y Cyngor.

## 6 PERFFORMIAD Cwynion EICH LLAIS: CHWARTER 4

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (HCES), a oedd yn darparu trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 3 2013/14, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd H. C. Irving yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybodaeth am faterion perfformiad. Eglurodd y HCES fod y penawdau ar gyfer Chwarter 3 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a'i atodiadau. Yna, fe ehangodd ar y pwyntiau hyn i aelodau.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Eglurwyd gan yr HCES bod 95% o'r targedau wedi cael eu gosod yn unol â'r polisi cwynion cenedlaethol a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych. Teimlai y byddai'n fuddiol archwilio sail unrhyw gwynion a dderbyniwyd, a dywedodd wrth y Pwyllgor fod Aelodau Arweiniol wedi cael taflen rhestr wirio archwilio y gellid ei defnyddio, wrth ymgynghori gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, i ganfod natur y cwynion a sut roedd gwybodaeth yn cael ei rheoli i fynd i'r afael â chwynion. Cyfeiriodd yr HCES at gyflwyno safonau gwasanaeth i'r Awdurdod, ac arwyddocâd polisi adborth y Cyngor wrth ddelio ac ymateb i gwynion.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd G.L.I. Williams at bwysigrwydd nodi a darparu manylion adborth cadarnhaol a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Pwysleisiwyd arwyddocâd a phwysigrwydd gwahaniaethu rhwng cais gwasanaeth a chwyn gan y Cynghorydd H.C. Irving. Darparodd yr HCES ddiffiniad rhwng cais gwasanaeth a chwyn.
- Cafodd y Pwyllgor wybod bod y Polisi'n caniatáu ar gyfer amserlenni estynedig mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd, ac ar un achlysur yn unig, pan roedd amgylchiadau angen hynny.
- Cafodd ei gadarnhau gan yr HCES bod cwynion a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hanfon ymlaen at yr adrannau gwasanaeth perthnasol yn Gymraeg.
- Eglurodd yr HCES bod y codau lliw a ddefnyddir yn ffeithiol ac yn cael eu defnyddio yn unol â hynny.
- Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau ynghylch cynnwys adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, awgrymwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda gwasanaethau'r Cyngor i alluogi dadansoddiad manwl o berfformiad wrth ddelio â chwynion a natur y cwynion, gan y byddai hyn yn helpu i nodi unrhyw wendidau o fewn gwasanaethau. Eglurodd yr HCES y byddai ymgorffori'r adborth yn yr adroddiad cwynion rheolaidd yn ddarn mawr o waith i wasanaethau. Fodd bynnag, gellid cyflwyno adroddiad un-tro i'r Pwyllgor yn yr hydref.



Cymeradwydd y Pwyllgor berfformiad y Cyngor wrth ddelio â chwynion, gan gyfeirio'n benodol at y gwelliant a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd wrth ymateb i gwynion. Diolchodd y Pwyllgor i'r HCES a'i thîm am eu gwaith caled wrth fwrw ymlaen â'r gwelliant mewn perfformiad o ran ymdrin â chwynion, ac yn y pen draw, o ran darparu gwell gwasanaethau i breswylwyr.

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad

- (a) yn nodi perfformiad gwasanaethau wrth ymateb i gwynion, a
- (b) yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud gyda gwasanaethau'r Cyngor i alluogi bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn yr hydref ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio â chwynion a natur y cwynion a dderbyniwyd.

## 7 RHAGLEN GWAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn darparu diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar, ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd o'u rhoi ar waith, wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol ar gyfer y cyfarfodydd canlynol:-

20 Mawrth, 2014:-

- Darparu Adroddiad ar y Stad Amaethyddol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion o'r cynnydd hyd yma gyda rhesymoli'r Stad, cytundebau tenantiaeth, ffermydd a werthwyd gan yr Awdurdod a strwythur staffio'r Adran.
- Adrodd o ran y ddarpariaeth gwasanaeth yn dilyn cau'r Asiantaeth Gymunedol. Gofynnodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn manylu ynghylch y ddarpariaeth gwasanaeth amgen a fyddai ar gael i breswylwyr yn dilyn cau asiantaethau cymunedol yn y Sir, a rhoi'r gorau i gyllid ar gyfer y rhaglen Taith i Waith.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch darparu gwybodaeth yn ymwneud â Clwydfro, eglurodd y Cydlynnydd Archwilio fod y Pennaeth Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad yn ymwneud â Sefydliadau Hyd Braich a oedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer mis Mehefin, 2014.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Owens at Atodiad 1 o'r ddogfen Briff Gwybodaeth a oedd yn nodi bod Prisio ac Ystadau gyda dros 200 o unedau busnes ar draws y Sir. Eglurodd y Cynghorydd Owens fod Clwydfro hefyd yn meddu unedau busnes yn Rhuthun.

Cytunodd y Cyngorydd R. J. Davies i gyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol mewn perthynas â materion a godwyd mewn perthynas ag Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych.

Cytunodd yr Aelodau y dylid ceisio barn y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ynghylch ystyriaeth, gan y Pwyllgor Archwilio perthnasol, ynghylch y Polisi Enwi Strydoedd cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, eu bod yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cefnogodd Aelodau'r Pwyllgor y farn a fynegwyd gan y Cyngorydd A. Roberts fod cynnig yn cael ei gyflwyno i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Grŵp, bod cynrychiolaeth Pwyllgorau Archwilio ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn cael ei chynyddu o un i ddau Aelod, gyda'r ddau Aelod yn cael eu hysbysu am amser a dyddiad cyfarfod y Grŵp yn y dyfodol.

Fe wnaeth y Cyngorydd D. Owens hysbysu'r Pwyllgor ei fod ef a'r Cyngorydd P.W. Owen wedi ymweld â'r sefydliadau Gwasanaethau Hamdden a'r Adran Refeniw a Budd-daliadau yn y Rhyl yn ddiweddar. Eglurodd y byddai adroddiad ar yr ymweliad yn cael ei ddarparu a thynnodd sylw at y gwaith da a wnaed gan y staff, a'r cyfleusterau hamdden rhagorol sydd ar gael ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Cytunodd yr CD:ECA i ddarparu gwybodaeth am adroddiad i Bwyllgor o'r Cyngor o adroddiad yr Ombwdsmon ynghylch dileu dyledion Treth y Cyngor.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cyngorydd G. Sandilands, esboniodd y CD: ECA fod y Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r effaith roedd cau cyfleuster Hamdden Clwyd yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac ar enw da'r Cyngor. Rhoddodd fanylion am y broses a fabwysiadwyd a'r cynnydd a wnaed gyda'r Arfarniad Opsiynau mewn perthynas â Hamdden Clwyd. Rhoddwyd amlinelliad o'r amserlenni dan sylw a chadarnhawyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth, 2014 mewn perthynas â'r mater hwn. Gofynnodd yr Aelodau fod eu gwerthfawrogiad o ymdrechion y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden mewn perthynas â'r mater hwn yn cael ei nodi.

Darparodd y Cyngorydd R.J. Davies fanylion o'r prif faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod Her Gwasanaeth yr Adran Adnoddau Dynol a gynhaliwyd 20 Ionawr, 2014, a oedd yn cynnwys datblygiad y strwythur AD, costau cymharol y gwasanaeth, gwelliannau, arweinyddiaeth, hyfforddiant a morâl o fewn yr adran. Rhoddodd y CD: ECA wybod i'r Pwyllgor bod y Pennaeth Adnoddau Dynol ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ynglŷn â strwythur AD, a byddai'n cyfarfod gyda'r Pennaethiaid Gwasanaeth i ganfod gofynion y gwasanaethau priodol. Roedd Staff AD hefyd yn gweithio gyda rheolwyr canol gyda'r bwriad o bennu blaenoriaethau ar gyfer y tîm, a byddai'r canlyniadau yn cael eu hystyried gan yr UDA ym mis Mai, 2014.

Rhoddodd y Cynghorydd G.LI. Williams wybod i Aelodau am ei ran fwriedig yn y dyfodol mewn cyfarfodydd Rali GB. Cyfeiriodd at lwyddiant y gystadleuaeth a phwysigrwydd rhan Sir Ddinbych yn ystod camau cynnar digwyddiadau'r dyfodol. Tynnwyd sylw at lwyddiant digwyddiadau beicio, fel Etape Cymru, gan y Cynghorydd Williams hefyd.

***PENDERFYNWYD*** – *derbyn yr adroddiadau a nodi'r cynnwys.*

***Daeth y cyfarfod i ben 11.50 a.m.***

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>20 Mawrth 2014</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion a Phlant / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Strategol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Asiantaeth Datblygu Cymunedol</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y newidiadau arfaethedig i'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn dilyn cau'r Prosiect Taith i Waith a ariennir gan Ewrop a'r gostyngiad o £25k yng nghyllideb yr Asiantaeth fel rhan o darged arbedion gofynnol y Cyngor o £8.5m.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i wneud yr arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol wrth sicrhau y bydd gwasanaethau priodol yn dal i fod ar gael ar gyfer yr unigolion a'r grwpiau cymunedol yr effeithir arnynt.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod dulliau eraill yn cael eu canfod i ddarparu'r ystod o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol wedi'r gostyngiad o £25,000 yn eu cyllideb.

## 4. Manylion yr adroddiad.

- 4.1 Sefydlwyd yr Asiantaeth Gymunedol yn wreiddiol yn 1985 trwy Arian Cymorth Trefol, fel rhan o raglen ddatblygu gymdeithasol a chymunedol yn Sir Clwyd. Mae bellach yn rhan o Wasanaethau Oedolion a Busnes Cyngor Sir Ddinbych.
- 4.2 Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Asiantaeth, drwy ei ganolfan adnoddau gyflawn "ymarferol", wedi cefnogi nifer o grwpiau ac unigolion trydydd sector a, dros y blynyddoedd, mae hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu symiau sylweddol o arian i gefnogi amryw o weithgareddau cymunedol. (Gweler Atodiad 1 am fanylion ynglŷn â defnydd)
- 4.3 Ers 2010, yn ogystal â'i weithgareddau ei hun, mae'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol hefyd wedi darparu ei gyfleusterau ar gyfer defnydd cyfranogwyr Taith i Waith, prosiect o bwys a ariannwyd gan Ewrop, a darparodd swyddfeydd ar gyfer ei staff.

- 4.4 Nid oes amheuaeth fod yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn adnodd pwysig iawn ar gyfer yr holl unigolion a grwpiau cymunedol sydd wedi bod yn ei ddefnyddio dros y blynyddoedd ac wedi elwa ar ei adnoddau. Fodd bynnag, mae angen ystyried newid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu hariannu a'u darparu am ddau brif reswm.
- 4.5 Y rheswm cyntaf yw bod y prosiect Taith i Waith wedi dod i ben ar 28 Chwefror. Am y pedair blynedd diwethaf, mae'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol wedi bod yn rhan bwysig o'r prosiect Taith i Waith ac mae'r holl staff, ac eithrio dau, wedi cael eu hariannu gan y prosiect. Yn wir, mae ond wedi bod yn bosibl cynnal yr Asiantaeth dros y pedair blynedd diwethaf oherwydd i ni lwyddo i sicrhau arian Ewropeaidd. Er y caiff rhai o'r staff eu cyflogi tan 31 Mai er mwyn cau'r gwaith ar y prosiect, daeth y cyllid ar gyfer gweithio'n uniongyrchol efo unigolion i ben ddiwedd mis Chwefror. Ni fyddai'n ymarferol i weithredu'r asiantaeth gyda dim ond dau aelod o staff, ac rydym wedi dod i'r casgliad y gellid eu defnyddio mewn modd mwy effeithlon mewn swyddogaeth datblygu cymunedol gyffredinol yng Ngwasanaethau Oedolion a Busnes Sir Ddinbych, mewn perthynas â gofynion y ddeddfwriaeth newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.
- 4.6 Gwnaed ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o dderbyn rhagor o arian Ewropeaidd ar gyfer y prosiect Taith i Waith ond ni fydd y ffrwd ariannu berthnasol nesaf ar gael am o leiaf 12 mis ac nid oes gan y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr holl waith dwys sy'n gysylltiedig â pharatoi cais a delio â holl gymhlethdodau a risgiau prosiect mor fawr.
- 4.7 Yr ail reswm yw'r sefyllfa ariannol anodd iawn sy'n wynebu'r Cyngor Sir. O ystyried yr angen i ganfod £8.5 miliwn o arbedion yn y flwyddyn ariannol nesaf, rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â lleihau gwasanaethau. Wrth gwrs, mae angen diogelu gwasanaethau statudol rheng flaen i unigolion diamddiffyn, ond nid yw'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn y categori hwn ac mae arbedion o £25,000 y flwyddyn wedi eu nodi mewn perthynas â chostau swyddfa'r Asiantaeth.
- 4.8 Mae ymdrech bendant ar y gweill i ddod o hyd i wahanol dulliau o ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr presennol yr ADC yn ogystal ag unrhyw gyfraniadau ariannol at yr arbedion effeithlonrwydd o £25,000 sydd angen. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio adeiladau eraill yn y Rhyl fel swyddfeydd i'r gwasanaeth, fel Morfa Clwyd, siop yn y White Rose Centre ac eglwys ar Stryd y Dŵr.
- 4.9 O ran y Cyngor Sir ei hun, gellir creu cysylltiadau gyda datblygiad y gwasanaeth llyfrgelloedd yn y dyfodol ac mae swyddogion yn ystyried hyn, yn ogystal ag opsiynau eraill fel Dysgu i Oedolion, mewn rhagor o fanylder. Nid oes amheuaeth fod gwaith yr ADC yn cyfrannu at wella sgiliau sylfaenol a gallai hyn gyfrannu at fentrau'r Cyngor Sir yn y maes hwn.
- 4.10 Penderfynwyd y bydd Taith i Waith yn talu costau eiddo o tua £4000 ar gyfer mis Ebrill a Mai, gan y bydd gweddill staff y prosiect yn cael eu lleoli yn yr ADC er mwyn cau gwaith y prosiect. Cytunwyd hefyd y gellir defnyddio rhywfaint o arian Cefnogi Pobl (tua £13,000 yn 2014/15) tuag at gostau staffio yn yr Asiantaeth, a fyddai'n gallu cyfrannu at yr arbedion o £25,000 sydd angen. Bydd y cyfanswm o £17,000 tuag at gostau adeiladu'n galluogi mwy o amser i ddatblygu dulliau eraill o ddarparu'r gwasanaeth a bydd yr adeilad presennol yn yr Orsaf Drenau'n parhau i gael ei ddefnyddio nes y bydd hyn yn cael ei nodi.

- 4.11 Yn ogystal â hyn, rydym yn gwneud ymholiadau gyda Phartneriaeth Gymunedol y Rhyl, sy'n derbyn arian fel rhan o'r cytundeb sefydledig rhwng N Power a Phartneriaeth yr Arfordir (mae N Power wedi'i ddisodli bellach gan RWE Renewables). Disgwylir iddynt benderfynu a allant wneud cyfraniad ymhen ychydig wythnosau. Yn wreiddiol roedd y Partneriaeth yn gyfrifol am ariannu llawer o offer yr ADC.
- 4.12 Gwnaed cynnydd sylweddol felly o ran canfod dulliau o barhau â gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr presennol yn ogystal â gwneud arbedion ariannol. Fodd bynnag, bydd gwaith pellach yn parhau ar hyn i gyd gan fod angen gwneud yn siŵr y bydd gwasanaethau priodol yn eu lle ar gyfer 2014/15, ond rydym hefyd yn dymuno sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hirach.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

O safbwynt y Cynllun Corfforaethol, mae'r blaenoriaethau a ganlyn yn berthnasol:

- Datblygu'r economi leol: Mae'r ADC yn darparu cyngor a chymorth sy'n helpu pobl i symud i gyflogaeth ac rydym yn archwilio ffyrdd y gall hyn barhau.
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid: yr hyn sydd yn y fantol yma yw'r angen i foderneiddio gwasanaethau trwy gyflwyno opsiynau cymunedol yn lle gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan CSDd.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â hyn. Mae'r Gwasanaethau Oedolion a Busnes wedi nodi arbedion gwerth tua £25,000 drwy roi'r gorau i ariannu costau eiddo'r ADC.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb drafft wedi'i gynnal a bydd yn cael ei gwblhau fel rhan o'r ateb terfynol.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

- 8.1 Cafodd y cynnig i ddileu'r cyllid i'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol ei gynnwys yng Ngweithdai Cyllideb yr Aelodau hydref y llynedd.
- 8.2 Cwblhawyd holiaduron gydag unigolion er mwyn nodi'r gwasanaethau y maent wedi bod yn eu derbyn yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau eraill addas o'u safbwynt hwy. O ran parhad gwasanaethau, naill ai ar eu ffurf bresennol neu drwy ddarpariaeth arall, mae ymgynghoriadau'n cael eu cynnal gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Cymunedau yn Gyntaf, Strategaeth Dinas y Rhyl a gwahanol Adrannau'r Cyngor Sir. Nid oes gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yr adnoddau sydd eu hangen ar hyn o bryd, ond mae wedi cytuno i gysylltu â sefydliadau Trydydd Sector ar ein rhan. Mae trafodaethau gyda Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn arbennig o gynhyrchiol ac mae'n bosibl y gallai dau o'u swyddogion, sy'n ymwneud â Dysgu Oedolion, gael eu lleoli yn yr ADC o bryd i'w

gilydd ac yn cynnig cefnogaeth i unigolion. Maent hefyd yn ystyried dulliau eraill o helpu.

#### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does dim angen datganiad.

#### **10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn adnodd adnabyddus iawn yn y Rhyl ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr gan nifer o ddinasyddion sydd wedi'i ddefnyddio dros y blynyddoedd. Mae rhai o'r unigolion sy'n defnyddio'r ganolfan yn ddiamddiffyn am wahanol resymau a byddai risgiau ynghlwm â chau'r ganolfan heb ganfod darpariaeth arall. Mae'r camau amrywiol a gyfeirir atynt yn yr adroddiad yn fodd o liniaru'r risgiau hyn.

#### **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amlinellir pwerau Archwilio mewn perthynas ag ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion ym mharagraff 6.3.2 (c) y Cyfansoddiad.

#### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Strategol

Ffôn: 01824 706632



## Atodiad 1

### Niferoedd sy'n Defnyddio'r Asiantaeth Datblygu Cymunedol

#### Y cyfnod 10 - 14 Chwefror 2014

**TiW:** 21 unigolyn unigryw'n gwneud 35 ymweliad (mae'r gwasanaeth Taith i Waith (TiW) wedi dod i ben)

**Eraill:** 47 unigolyn unigryw'n gwneud 77 ymweliad  
+ 9 ymweliad "Achlysurol"

**Grwpiau:** 8 unigolyn unigryw'n gwneud 10 ymweliad  
(gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, e.e. llungopïo / argraffu / rhwymo crib / lamineiddio / benthyg offer ac ati)

#### Tach 2013 - Ion 2014

Nifer o Grwpiau unigryw: 53 Nifer o Ymweliadau: 150

Nifer o unigolion unigryw: 250 Nifer o Ymweliadau: 1,015

Yn ogystal, mae nifer o ymweliadau achlysurol, galw heibio nad yw'n ymarferol i'w cofnodi

#### Yn ystod y cyfnod 2012 - 2013

Gwnaeth dros 150 o grwpiau dros 600 o ymweliadau

Gwnaeth 769 unigolyn sy'n defnyddio'r cyfleusterau 4,765 o ymweliadau

**Dyma rai o'r sefydliadau sydd wedi'u sefydlu, eu cefnogi a'u datblygu'n lleol:**

- Undeb Credyd Arfordir Clwyd Cyf
- Cymdeithas Cae Chwarae Antur y Rhyl
- Benefits Advice Shop
- Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl
- Gwasanaeth Cyfryngu
- Banc Bondiau Sir Ddinbych
- Prosiect Ailgylchu Cymunedol:
- Cymdeithas Tenantiaid Morfa Bach
- Cymdeithas Trigolion Parc Bruton:
- Cymdeithas Gymunedol Marsh
- Canolfan Drigolion Abbey Street
- Cymdeithas Drigolion Lakeside
- Cymdeithas Drigolion Canol y De Orllewin
- Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych

Mae'r prosiectau eraill a gynorthwywyd yn cynnwys: prosiectau amgylcheddol, mentrau addysg, grwpiau merched, mentrau byw'n iach, diogelwch cymunedol, grŵp cymorth i bobl hoyw a lesbiaid a llawer mwy.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>20 Mawrth 2014</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Swyddog Gwybodaeth ac Ansawdd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Ymweliadau Darparwyr Gwasanaethau Oedolion 2013/14</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn ag Ymweliadau Darparwr a gynhaliwyd gan Aelodau Lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad am y cynnydd wrth gwblhau ymweliadau darparwr a chynnydd ar y cynlluniau gweithredu dilynol yn 2013/14.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Profwyd bod ymweliadau darparwyr mewnol yn ffordd ardderchog i aelodau gyfarfod defnyddwyr gwasanaeth a staff a chlywed eu barn am y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Mae 13 o sefydliadau gwasanaethau oedolion wedi'u nodi fel rhai priodol ar gyfer yr ymweliadau hyn. Cwblhawyd 8 ymweliad rhwng Mai 2013 a Chwefror 2014.

4.2 Ar ôl pob ymweliad rota, bydd yr Aelodau Etholedig yn cyflwyno adroddiad sy'n cael ei rannu gyda'r Gwasanaeth. Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu mewn ymateb i unrhyw faterion penodol a godwyd yn yr adroddiadau. Yna, bydd y cynllun gweithredu yn cael ei rannu gyda'r Aelodau Etholedig fu'n rhan o'r ymweliad.

4.3 Mae'r adroddiadau ar yr ymweliadau darparwyr mewnol a gynhaliwyd yn 2013 a 2014 yn cadarnhau safonau gofal da. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar ofal ac ansawdd y sefydliadau a'r staff ym mhob adroddiad.

4.4 Roedd yr adborth cadarnhaol yn cynnwys:

### 4.4.1 **Taskforce / Popty** (Gwasanaeth Cyfle Gwaith)

*"Amodau gwaith da a hapus"*

*"Yn hapus iawn gyda'r cymorth sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol"*

### 4.4.2 **Hafan Deg** (Canolfan Dydd ar gyfer Pobl Hŷn)

*“Roedd y bwyd a baratowyd a'i goginio ar y safle o safon uchel iawn a'r cogydd yn frwdfrydig iawn”*

*“Roedd llawer iawn o weithgareddau h.y. cardiau, crefft, celf ac ati, sy'n ysgogol iawn i drigolion”*

4.4.3 **Tŷ Mor** (Canolfan Dydd ar gyfer Oedolion ag Anghenion Iechyd Meddwl)

*“Llawn gweithgareddau paentio, gwau, crefft, gwnïo ac ati”*

*“Staff a defnyddwyr gwasanaeth siriol iawn”*

4.4.4 **Awelon** (Cartref Gofal i Bobl Hŷn)

*“Mae'r cartref yn ddiogel, a'r trigolion yn hapus ac wedi ymlacio”*

